CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL
**Cadeirydd:** Gethin Pyrs
Nos Lun Ebrill 17eg 2023 am 7.30 y.h.

# Cofnodion (105)

1. **Ymddiheuriadau**: Cyng. Gwynfor Roberts
2. **Presennol:** Cyng. Gari Jones, Gerallt Jones, Gethin Pyrs, Alun Owen, Edmund Rees, Cyng. Sirol Gwennol Ellis ac Enid Williams (Clerc)
3. **Còd Ymddygiad:** Datgan Cysylltiad neu ddiddordeb personol mewn un neu fwy o eitemau'r Agenda -neb yn datgan diddordeb
4. **Cofnodion mis Ionawr** cynigiwyd yn gywir gan ER gydag GBJ yn eilio.
5. **Materion y Codi o'r Cofnodion:**
   - Adeilad Llyfrgell Cerrig - cafwyd adroddiad o'r cyfarfod gan Edmund Rees a bod 12 ar y pwyllgor cyn symud ymlaen.
   - Penodwyd Edmund Rees i gynrychioli'r Cyngor ar bwyllgor y Llyfrgell
6. **Gohebiaeth:**
   6.1. CBSC – derbyniwyd taliad cyntaf o'r Presept £1600.00
   6.2. CBSC – Llyfrgelloedd – diolchwyd ar y cyfraniad tuag at gadw'r llyfrgell yn agored am y flwyddyn 2023-24 hun yn rhoi amser i'r Cyngor Sir ymgynghori a ail-linio'r gwasanaeth yn llwyr.
   6.3. Derbyniwyd llythyr gan Darren Millar AS yn gofyn am gael dod i ymweld a'r Cyngor Cymuned ond gan nad oes unrhyw fater i'w drafod ar hun o bryd penderfynwyd anfon ato yn diolch iddo am y cynnig ac os bydd problem yn y dyfodol byddwn yn cysylltu gyda'i swyddfa.
7. **Monitro'r Gyllideb:**
   i) Edrychwyd dros y gyllideb a chafwyd popeth mewn trefn.
   ii) Edrychwyd dros y fantolen banc a'i derbyn yn gyflawn.
8. **Derbyn a Chymeradwyo:**
   8.1. Mantolen Flynyddol 2021/22 – cadarnhawyd a derbyniwyd y Fantolen Flynyddol fel un gyflawn
   Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol – *'Ar sail fy adolygiad, yn fy marn i, nid oes unrhyw faterion wedi dod i'm sylw gan roi achos pryder, mewn unrhyw barch materol, y wybodaeth a adroddwyd yn y Ffurflen hon: Deryck Evans, Rheolwr Archwilio, Archwilio Cymru'*
   8.2. Mantolen Flynyddol 2022/23
   - Datganiad Llywodraeth Blynyddol (rhan 1 a 2) cynigiodd ER gyda AO yn eilio a phawb yn cytuno bod pwyntiau 1 – 9 wedi eu cwblhau.
   - Datganiadau Cyfrifyddu 2022/23 archwiliwyd y fantolen yn fanwl gyda AO yn cynnig a ER yn eilio yna cytunwyd pawb fod y fantolen yn gywir a chyflawn.
9. **Talu Anfonebau:**
   9.1. Archwilio Cymru cynigiodd GBJ gydag ER yn eilio talu'r anfoneb o **£200.00** gyda siec rhif **100382**. (S151)
   9.2. Costau'r Clerc am 4 mis o Rhagfyr i Mawrth cynigiodd GBJ gyda ER yn eilio talu'r anfoneb o **£75.44** gyda siec rhif **100383** (S150)
10. **Gair gan y Cyng. Sirol Gwenno Ellis:** Eglurodd y diweddara ynglŷn a Sgubor Rin a'r maes parcio cyfagos.
12. **Unrhyw fater arall:**
   12.1. Bydd y Sgip Gymunedol ar y Maes Parcio ar ddydd Mawrth Mai 16eg 2023.
   12.2. Lamp yn Maes yr Afon ddim yn gweithio
   12.2. Adroddiad gan Peter Jones Heddlu Gogledd Cymru – Trosedd – difrod troseddol wedi ei wneud i sied ardd a giât perchenog yn Maes yr Afon ar17/03a 11/04. Y broblem yn dal cael ei archwilio
13. **Dyddiad y cyfarfod nesaf** Mai 15fed 2023 (Pwyllgor Blynyddol)

Arwyddwyd________________________________ Cadeirydd Dyddiad 15.05.23